Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru

Mehefin 2022

Mae **Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru** yn gasgliad o gamau gweithredu i gefnogi ymarfer fferylliaeth, deintyddiaeth, optometreg a chyffredinol cymunedol i wella cynaliadwyedd amgylcheddol eu harferion o ddydd i ddydd ac i gyrraedd targedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.

Mae'r Fframwaith wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad ag ystod eang o randdeiliaid ac fe'i lansiwyd yn ffurfiol gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 8 Mehefin 2022 .

I gofrestru am ddim cliciwch yma

Cod cofrestru 44247

Mae'r camau gweithredu'n glinigol ac yn anghlinigol ac yn cwmpasu categorïau megis caffael, gwastraff, adeiladau ac ystadau, atal clefydau, a thrafnidiaeth a gweithio clyfar (mae'r rhain wedi'u halinio â'r themâu yng Nghynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru).

Gall practisiau ddewis pa gamau y maent am weithio arnynt i gronni pwyntiau. Yn dibynnu ar gynnydd, bydd practisiau'n cael gwobr 'gweithio tuag at', efydd, arian neu aur.
Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cynllun yn Gofal Sylfaenol Un.

Am unrhyw sylwadau neu ymholiadau cysylltwch â greenerprimarycare@wales.nhs.uk.